Cyfres Llanbedr | Mai, 1926. | Cyf. 26. Rhif 5.

Profwch bob peth: Rhyddid: Gwirionedd: Cariad. Deliwch yr hyn sydd dda

Yr Ymofynnydd.

Cylchgrawn Misol Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru

Y Golygydd. | Y Parch. T. Oswald Williams.

— Cynnwys. —

NODION Y GOLYGYDD.
CYFLE'R BOBL I ROI TERFYN AR RYFEL.
CENNIN PEDR MEWN LLEN A CHWEDL.
FFWL EBRILL.
Y CYFARFODYDD CHWARTEROL.
CYMANFA GANU SIR FORGANWG.
PRIODAS. MARWGOFION.
NODION YR EGLWYSI.

Y Gwirionedd a'ch rhyddha chwi

Argraffwyd gan J. D. Lewis Gwasg Gomer Llandysul.

YR YMOFYNNYDD.

Pris 3c. y mis; drwy y Post, 3s.6c. y flwyddyn. Danfonir 6 copi ac ychwaneg yn ddidraul drwy'r Post.

Anfoner Erthyglau, Llyfrau i'w hadolygu, etc., i'r Golygydd—Y Parch. T. Oswald Williams, M.A., Lampeter.

Yr archebion a'r taliadau i'w hanfon i'r Cyhoeddwr, Mr. J. D. Lewis, Swyddfa'r "Ymofynnydd," Llandysul.

Geiriadur Beiblaidd

Y Gwaith Pwysicaf ar y Beibl a Gyhoeddwyd yn Gymraeg.

Pedair mil o Erthyglau gan 180 o'n gwyr blaenaf.

Pris 1/6 y Rhifyn.

I'w gael o Swyddfa'r "Ymofynnydd," Llandysul.

.. RICHARD PRICE ..

Philosopher and Apostle of Liberty.

Gan ROLAND THOMAS, M.A.

Cyfarwyddwr yr Ysgol Wyliau Gymraeg.

Gwasg Prifysgol Rhydychain, 5/-.; Drwy'r Post, 5/5.

Anfoner i Swyddfa'r "Ymofynnydd," Llandysul.

T. E. Jones, & Co.

— LLANDYSSUL. —

Flour Millers and Provender Millers, Merchants, Wholesale Grocers, etc.

.. Yr Ymofynnydd. . .

Cyfres Llanbedr. MAI, 1926. Cyf. XXVI. Rhif 5.

NODION Y GOLYGYDD.

" Ar y gwir mae rhagoriaeth,
O'm lleddir am wir ba waeth."
Ieuan Tew.

" YR wyf yn awr yn rhydd i fyn'd i'r fan y fynnwy," meddai Jac Glanygors gynt, ac y mae ysbryd Glanygors wedi gafael ynof innau, rhyw ysbryd crwydro a myn'd, ysbryd na phlyg i gredo cymdeithas nac unrhyw gredo o ran hynny. Y mae'n hyfryd teimlo eich bod " yn rhydd i fyn'd i'r fan y fynnoch," a phob cadwyn wedi dryllio. Tremio megis o bell er gweld pethau fel y maent. Nid malais na gwg na chenfigen a'm symbyla ond fy ysbryd aflonydd heb fynnu'i dawelu.

Gwn yr hen ddihareb " Llawer gwir goreu'i gelu," ond ni thal bob tro. Mynych rhaid defnyddio'r gyllell er torrir cancr ymaith a cheisiaf innau adrodd stori blaen heb ddarnguddio dim o'r gwir. Credaf fod dyn yn fradwr oni thraetho a wyr neu a dyb o leiaf. Rhyw fynd gyda'r llif y byddwn i, rhyw ofni, rhyw betruso, rhyw adael pethau fel y maent. Y mae rhywbeth yn eisiau. Y mae'r *peth byw*, y *reality* rywsut ar goll. Pan redo ceffyl ar wyllt, naturiol ceisio'i arafu oni ellir ei ddal. Y mae'n ddyledswydd codi llaw er rhybuddio. Oni wrandewir, beier arall ac nid myfi. Y mae menter cwpled Ieuan Tew yn fy nghalon :—

" Ar y gwir mae rhagoriaeth,
O'm lleddir am wir ba waeth."

* * *

Yr wyf wedi dilyn Cyfarfodydd yr enwad yn rheolaidd yn ystod y deng mlynedd diweddaf heb deimlo fod y pwyslais wedi newid yr un iod na'r un tipyn. Rhyw aros yn yr unfan yr ydym. Nid

beio na barnu mo hyn. Ofer codi bwganau er eu taro i lawr a dim ond hynny, ac ofer gwaeddi yr hen shiboleth oherwydd i'r tadau wneuthur hynny. Y mae'n berigl inni gael ein hunain yn curo'r awyr a phrotestio yn erbyn rhywbeth sydd wedi hen ddiflannu o'r tir er's llawer dydd. Chwerthinllyd ydyw galw unpeth yn *fudiad* ac yntau wedi *llonyddu* ac *aros* ers cenhedlaeth o leiaf. Canfu Dr. Martineau y duedd hon ynom flynyddoedd lawer yn ol pan ddywedodd :—

> "The great mass of our congregations are as much wedded to their type of 'orthodoxy' as the professors of the Westminster Confession of Faith to their ampler formulary."

Ynddo'i hun nid yw hynyna ddim hwyrach ond imi y mae'n esbonio llawer peth. Nid yw'r ysbryd cenhadol yn fyw heddiw a chofier er ein bod yn *respectable*, unwaith y collir yr ysbryd cenhadol y mae'r diwedd yn agos. Balm i enaid yw troi o ambell bwyllgor a darllain hanes teithiau cenhadol Lyons a Wright a gwybod i Lyons bregethu yn Llanbedr "*to a very crowded congregation*" dros gan mlynedd yn ol. Pwy wyr am lafur a lludded Ben Phillips St. Clears. Rhamant crefydd yw ei deithiau. Teithiodd y Parch. D. Oliver, Gellionen 116 o filltiroedd ym Morganwg a Brycheiniog mewn 17 diwrnod a 70 ym Morganwg a Chaerfyrddin mewn deng niwrnod. Yn Hydref 1810 gellid gweld dau bererin—John James a David Siencyn Rees—yn gadael Dyffryn Aeron ar daith genhadol drwy bob man yn Ne Cymru lle bu cenhadwr yn pregethu.

Nid oedd iddynt ond ei theithio ar droed hyd y gwn i, ac ni theithiasant mohoni'n ofer ychwaith oherwydd ceir *census* yn 1830 a dyma rai o'r ffigyrau :—

Yr Ysbryd Cenhadol a'r Achosion Gwan. "Capelygroes, Rees Davies, (amcan gyfrif) 200—300; Alltyblaca, John Davies a David Evans, 200—300, about 100 communicants; Llwynrhydowen, John Davies a David Evans 300—400, 200—300 communicants."

Medrid ymhelaethu ond dyna ddigon i awgrymu nad cyfnod yr oes aur yw'r cyfnod presennol. Y mae'n berigl inni anghofio hyn. Doe'r cyfan yn fyw i'm cof a minnau'n gwrando'r ddadl yn y Cyfarfod Chwarter ar yr achosion gwan. Tybiwn wel'd yr hen gewri'n ymrithio o'm blaen a ninnau'n credu na fedrid disgwyl inni wneuthur rhagor na gadael Cwmwrdu yn llonydd am dros ugain mlynedd a Rhydyparc heb nemor gwell triniaeth. Deliwn ychydig yn fwy tyner at Benrhiw a Phanteg oherwydd credwn y teilyngant rhyw dri neu bedwar gwasanaeth y flwyddyn. Y mae'r ffordd

ymhell. Y mae'r heolydd yn ddrwg ar waethaf y gost. Y mae'r gweithwyr yn anaml. Digon gwir ac y *mae'r galon yn wan* ! Ceisiwn am gynllun ond heb ei gael a heb wneuthur odid ddim. Wrth feddwl am hyn cofiais hanesyn am hen saer gan Gadfridog yn yr Amerig yn ystod rhyw Ryfel. Gorchymynnodd i'r pensaer dynnu plan a'i roddi i'r Saer er codi pont erbyn y bore. Daeth y bore a gofynnodd y cadfridog iddo a oedd wedi cael y plan. Atebodd yr hen wr ef drwy ddywedyd " " Ni wn i mo hanes y plan ond y mae'r bont yn barod." Trueni na fedrem ninnau godi'r bont. Ni feiaf neb. Y mae'profiad o'u tu a gwyddant am lwyddiant eu cynllun wedi'i brofi am dros chwarter canrif. Nid oes gennyf i ond brwdfrydedd a menter ysbryd aflonydd a hwnnw'n crynu fel blodeuyn yn yr oerwynt.

Ni phlyg a gwell encilio na bod yn graig rhwystr a maen tramgwydd byth a beunydd, ond cyn encilio rhoddaf un awgrym. Pe bai gennyf hawl apwyntiwn leygwr (ac y mae un felly gyda ni ar hyn o bryd) i ofalu am yr eglwysi gwan ond nid o anghenrheidrwydd i bregethu ynddynt bob Sul a chofier y mae Capel y Cwm ddau Sul y mis yn dibynnu ar *supplies*. A ydyw'n ormod gofyn i rai o wyr cefnog yr enwad ddod i'r adwy i gynorthwyo ? A ydyw cariad y teidiau gynt wedi sychu ? Ni fedraf i esbonio'r difrawder os difrawder hefyd. Ofnaf na fynnir gwybod. Rhyw ddydd fe ddihunir. Gobeithio na bydd yn rhy ddiweddar.

* * *

Mewn erthygl yn y *Glasgow Herald* gelwid sylw at brinder ymgeiswyr am y weinidogaeth a dyma'r geiriau :—

Pwlpudau Gwag a Chyflenwi'r Weinidogaeth

" Am rai blynyddoedd yn ddiweddar y mae prinder ymgeiswyr am y weinidogaeth yn broblem ddifrifol a chynhyddol yn y mwyafrif o Eglwysi Prydain. Wynebir Eglwys Loegr a phrinder digyffelyb o guradiaid. Yn yr Alban trafodwyd y cwestiwn hwn mewn synod, cymanfa a chyfarfod cyhoeddus ond ni tharawyd ar gynllun ymarferol i ddod allan o'r anhawster."

Sieryd ffigyrau'n hyawdl. Yn 1914 ordeiniwyd 563 o ddiaconiaid ; y llynedd 392, er fod mwy o fechgyn yn Ysgolion Cyhoeddus Lloegr nag erioed. Tebyg ydyw'r hanes ymhob enwad. Yng Nghanada y mae'r Eglwysi Presbyteraidd ddau cant yn brin, a phwy ddydd anfonwyd dirprwyaeth i'r Alban ar datgan y gobaith y caniateai Eglwys yr Alban i rai o'i gweinidogion i fynd trosodd i Ganada hyd yn oed am dymhorau byr. Nid yw'n wiw cuddio'r ffeithiau hyn.

Beth yw'r sefyllfa yng Ngheredigion a Morganwg gyda ni? Y mae Cefncoed ac Aberdar yn wag. Y mae rhai o'n gweinidogion ar hyn o bryd o fewn ychydig iawn o flynyddoedd i'r adeg pan garant gael eu rhyddhau o ofal eglwys. Ni thybiwn yr ymwel angau a'r rhengoedd. Ni chofiwn y medr ereill ddilyn y fintai fawr dros Glawdd Offa. Nid wyf broffwyd a digon imi yw dangos y perigl, ond y mae'n werth cofio nad oes gennym ar gyfer ein heglwysi Cymraeg ond un myfyriwr yn yr Ysgol a hwnnw o leiaf bedair neu chwe' mlynedd o'r weinidogaeth a gall fod dau neu dri pulpud yng Ngheredigion yn ei ddisgwyl lawer yn gynt.

Y mae gan y *Glasgow Herald* ei reswm am y prinder. Rhyw gredu yr ydym na ddylasai pregethwr son am arian a chyflog byw, ond cedwir ein pobl ieuainc draw oherwydd nid melys yw oes "of genteel poverty and lifelong financial worry,."

Y mae'n bryd i'r oes bresennol wneuthur ei meddwl i fyny am yr Eglwys. Os ydyw yn *vital centre* gwareiddiad heddiw fel y credaf, yna y mae'n bryd i gymdeithas ddihuno. Nid oes fawr o grefydd mewn unrhyw eglwys a dybio na ddisgwylir aberth ond oddiwrth y gweinidog. Disgwylir arnom fel gweinidogion i annog bechgyn ieuainc i'r weinidogaeth. Tybed y medrwn ni yn gydwybodol wneuthur hyn o wybod pob peth? Atebed pob un drosto ei hun. Gwn i fy ateb fy hun. Cwynir yn aml fod y weinidogaeth yn is ei safon o ran dysg heddiw nag hanner can mlynedd yn ol. Nis gwn ond gwn hyn, mae'r cynulleidfaoedd sydd ar fai. "Nid ar fara yn unig y bydd byw dyn," medd rhywun, ac atebaf innau *nac ar wynt ychwaith*." Sawl cynulleidfa sydd erioed wedi gofyn a fedr y gweinidog gyda'i enillion prin gadw gyda'r oes heb son am fynd o'i blaen. Hwyrach y tybir fy mod yn galed a chwerw. Nid dros fy hun yr ysgrifennaf. Y mae gennyf i rwymedi arall, ond credaf ei bod yn bryd i aelodau'r Eglwysi sylweddoli eu cyfrifoldeb yn wyneb yr argyfwng presennol. Dyna fy marn onest a chydwybodol i het chwerwder na gwenwyn. Ni ofalaf am unrhyw ganlyniadau oherwydd amcenais draethu'r gwir,—

"Ar y gwir mae rhagoriaeth,
O'm lleddir am wir ba waeth."

Y CYBYDD.

Boddhad cybydd ydyw ceibio—am aur
Ei dymhorol eiddo;
Am hel o hyd y mae o,
Y dyhiryn diwario.

Ond ei neiaint annuwiol— a'i gwar-iant
Am y gwirod damniol;
Fel yna, bydd diflanol
Sarhad i'w bwrs ar ei ol.

Gwilym Deudraeth.

CYFLE'R BOBL I ROI TERFYN AR RYFEL.

Gan Arthur Ponsonby (gynt Is-Ysgrifennydd Materion Tramor) sydd yn awr yn arwain ymgyrch genedlaethol yn erbyn Rhyfel, ac yn apelio am rai i dorri eu henwau wrth y Llythyr Heddwch at y Prif Weinidog.

(Cyfieithiwyd gan yr Athro T. Gwynn Jones.)

Y mae'r Ty Cyffredin newydd fod wrthi'n bwrw ba faint o arian fydd eisiau at ymfyddino, ar y mor a thano, ar dir ac yn yr awyr (y Llynges, y Fyddin Dir a'r Fyddin Awyr). Nid yw rhyw newid bach yma, a chynilo tipyn acw, yn cuddio mo'r gwir hwn wedi'r cwbl—dyna ni i lawr yn ein holau yn yr hen rigol eto, sef darparu at ryfel.

" Ni allwn ni ddim fforddio rhedeg i berigl " meddai'r rhai sy'n ennyn rhyfeloedd, a bydd rhai ohonynt yn galw sylw, gyda dirmyg amlwg ddigon, at yr ysbryd sy'n ffynnu yng Nghyngrair y Cenhedloedd, lle y mae uchelgais y pleidiau cenedlaethol, a dichellion y diplomatiaid, yn andwyo'r ysbryd hwnnw sy'n cymryd Ewrop a'r byd i ystyriaeth, yr ysbryd y mae'n rhaid ei gael odditan y cwbl, os yw'r Cyngrair i lwyddo.

Felly dyma ni wrthi a'n holl egni yn gwneuthur llongau rhyfel, yn mwstro dynion i'r fyddin, yn llunio llestri awyr, yn perffeithio gas gwenwyn, yn dyfeisio pethau newydd at ffrwydro, yn gwneuthur peleni tan ac yn gosod tanciau wrth ei gilydd. Ceisir cael gan bobl gredu mae gorthrech yw'r unig feddyginiaeth, mai llyngesoedd a byddinoedd ar dir ac yn yr awyr yw'r amddiffyn goreu i ni. Ac eto, fe wyddom yn burion i gyd nad yw gorthrech yn feddyginiaeth o gwbl; ni bydd gorthrech yn setlo unpeth byth ac fel y gwyddom drwy brofiad, ni wna ddim yn y byd ond dwyn trueni anrhaethadwy ar y bobl. Fe wyddom cystal a hynny na bydd llestri môr na byddinoedd tir da i ddim oll fel amddiffyn rhag cawodydd o beleni tan o'r awyr, canys fe ddywed hyd yn oed y gwyr cyfarwydd eu hunain wrthym na ddichon bod un nawdd rhag y pethau hynny.

Yn y Senedd nid oes dim y gellir ei wneuthur. Nid oes rym yn llais rhyw nifer bach o ddynion a ddeallo oferedd erchyll y dulliau hyn. Y mae pwysau mawr yr hen draddodiad, a chefnogaeth ddifeddwl i'r hen beiriant, a hwnnw wedi ei daclu a dyfeisiau newydd yn parhau mor gryf fel na cheir neb a wrendy ar syniadau newyddion. Bydd llywodraethau yn cynefino pobl a'r syniad na ellir osgoi rhyfel, ac yn apelio at eu gwladgarwch fel y bont o blaid darparu at ryfel. Er hynny i gyd y mae pobl lawer a fynnai dystio yn erbyn y peth, llawer a ddysgodd wers y Rhyfel Mawr, ac y sydd yn edrych am ryw gyfle i fynegi barn bendant iawn ar y mater.

Mater i'r bobl ydyw mater rhyfel. Hwy fydd yn gorfod ymladd. Y bobl, yn wyr, gwragedd a phlant, a lethir ac a chwythir yn ddarnau wrth y miloedd yn eu cartrefi eu hunain. Buasai lliaws yn barod i aberthu, ac aberthu llawer hefyd, pe deuai rhyw les o hynny, pe byddai hynny o ryw fantais i'w cyd-ddynion neu i'w gwlad. Ond fe wyddant yn burion drwy brofiad chwerw na ddichon bod budd na mantais drwy ryfel, nac iddynt hwy eu hunain nac i'w cymdeithas na'u gwlad, ac na bydd ond ychydig o gnafon yn ymgyfoethogi drwy gyflafan arall debyg i'r olaf. Gwelant wastraffu miliynau o bunnoedd gwerthfawr ar ddarparu at ryfel, arian y gellid eu gwario at helpu'r rhai sydd dan draed, at ddysgu'r anwybodus, a symud baich ofnadwy tlodi. Deallant cystal a hynny mai unig effaith ein darpariadau ni yw annog eraill i ddarpar hefyd, ac mai'r

rhai sydd yn darpar at ryfel fydd yn y diwedd yn peri digwydd rhyfel. Gwyddant hyn oll, heb un ameu yn y byd.

Yn awr, ynteu, pa beth a wnant? Gyrru i'r Senedd ddyn a dystio yn erbyn peth fel hyn? Purion peth fyddai hynny, ond pan ddel etholiad gosodir gerbron gwlad nifer o faterion ereill, a gofyn am lais arnynt, a dywedir wrth y bobl nad rhaid iddynt mo'r ymboeni ynghylch rhyfel gan na bydd ryfel ar droed.

At hynny, hyd yn oed pe dewisent ddyn a fynnai amddiffyn ei gydwladwyr rhag y perigl hwn, ni all y Senedd wneuthur ond ychydig iawn.

Tuedd llywodraethau a'u swyddogaethau yw aros i wledydd ereill symud yn gyntaf. Y maent fyth a hefyd, yn ol pob golwg, yn ofni perigl, a phob amser yn rhy ofnog i gymryd yr unig gam a allai osgoi perigl. Na, ni thal i'r dyn cyffredin ddisgwyl i ereill weithredu drosto yn y mater hwn. Os hynny a wnant, fe'u siomir. Nid gwiw iddynt aros am agor pennod newydd, heb roddi cymorth eu hunain Rhaid i bob un beri clywed ei lais ei hun, rhaid i bob dyn rybuddio'r llywodraeth na waeth iddi heb ddibynnu ar ei wasanaeth ei os myn hi geisio setlo dadleuon llywodraethau drwy orthrech. Rhaid i bob merch ddywedyd yr un peth a rhaid i'r mamau ddywedyd mai nid i'w darnio, eu llethu a'u gwenwyno i ddim pwrpas y dygasant hwy blant i'r byd.

Hyn yn union yw'r peth a wneir gan y miloedd sy'n torri eu henwau wrth y Llythyr Heddwch. Rhybuddio'r Llywodraeth y maent, boed hi Lywodraeth Geidwadol ai Llywodraeth Lafur a hynny mewn pryd.

Os ceir digon i arwyddo, ni faidd un Llywodraeth fynd i ryfel, ac fe welir setlo dadleuon rhwng Llywodraethau drwy foddion cymwys, sef siarad a'i gilydd a chyfarfod hanner y ffordd. Ni chlywn ni mwy ddim son "bod anrhydedd y wlad mewn perigl." Canys wedi'r cwbl, ni ruthrir i ryfel ond pan fo gan lywodraethau ddigon o arfau'n barod a phan wypont y gallant ddibynnu ar y bobl i ymladd. Os byddant yn amheus am yr ail beth, ni fentrant ac ni cheir rhyfel.

I hyn ynteu y mae hi'n dyfod—hyd yn oed heb wneuthur cyfraith newydd, ac hyd yn oed heb newid Llywodraeth, fe all digon o bobl benderfynol a synhwyrol eu syniadau roddi terfyn ar ryfel—nid ei atal unwaith y cano'r corn; ni bydd dim a dalo pan ddigwydd hynny, canys meddwir y bobl ar gelwyddau—ond fe ellir atal canu'r corn o gwbl. Y mae hynny'n werth ei wneuthur, ac y mae ar y genhedlaeth hon gyfrifoldeb arbennig, ac ni ddylai betruso rhag gweithredu.

Bydd plant dynion ym mhen canrifoedd dirifedi yn edrych yn ol arnom ni sydd yn fyw heddiw fel y genhedlaeth a roes waradwydd ar wareiddiad. Y mae eto amser i ni wneuthur iawn, a pheri bod yr oesau a ddaw yn chwanegu ein bod ni, ar ol ein gwaradwyddo'n hunain, wedi dysgu gwers, a rhoi cam mawr a dewr ymlaen trwy gychwyn cyfnod newydd o reswm a phwyll, pryd y gadawyd rhyfel fel un o arferion gwarthus yr hen oesau barbaraidd. Os gallwn ni wneuthur hyn, fe'n bendithir gan genedlaethau dirifedi.

O'r Darian

CYMRU.—Nid yw gwleidyddiaeth ond rhan fechan o fywyd Cymru. Crefydd ydyw anadl ei bywyd, crefydd heb wawr gwleidyddiaeth arni. Nid yw y gwahaniaeth rhwng y sectau ond dibwys, o'i gymharu a'r holl wirioneddau sy'n eiddo cyffredin iddynt.—*Syr O. M. Edwards.*

CENNIN PEDR MEWN LLEN A CHWEDL.

Fair daffodils, we weep to see
You haste away so soon,
As yet the early morning sun
Has not attained his noon.
Herrick.

Ni fedr neb a gar Natur beidio a rhoi lleferydd i eiriau'r bardd o weld Cennin Pedr neu Flodau Mis Mawrth yn diflannu'n gyflym o ardd a choedlan a pherth fel mae Ebrill yn heneiddio oherwydd y mae dydd y blodeuyn bychan prydferth hwn, blodeuyn y gwanwyn drosodd wedyn. Pryd a phle y clywn ni gyntaf am Gennin Pedr ? Cyfeirir atynt mewn chwedl Roegaidd fel Asphodel lle yn y Narcissus persawrus y gafaelodd yn nhresi hir y dduwies Persephine, a chan droi yn liw melyn euraid diflannodd i dyfu byth mwy ym meusydd Elysium—trigfa'r meirw bendigedig. Ymddengys fod rhyw wir yn y traddodiad oherwydd yn Sicily heddiw y mae yna gaeeidiau o'r blodau ardderchog, a welir yn llanw y marchnadoedd yn Lloegr mor gynnar yn y tymor. Myn ysgrifenwyr ereill fod y gair yn dod o'r Anglo Savon ac yn golygu "yr hyn a ddaw yn gynnar."(Awgryma Cotgrave Asphodile (Asphodele) "the daffadil, affodill or asphodill.—Y Gol.).

Meddylid yn uchel am y blodeuyn yn y dwyrain canys dywedir i Fahomet orchymyn "I'r hwn oedd ganddo ddwy dorth i werthu un a phrynu'r blodeuyn canys er fod bara yn fwyd i'r corff, y mae'r blodeuyn hwn yn fwyd i'r enaid."

Cyrhaeddodd y gwreiddyn (y bulb) ein gwlad ni mewn ffordd tra hynod. Cafodd rhai morwyr Ysbaen eu hunain ar draeth Pemfro wrth ddilyn y Gulf Stream a darganfuasant y Glo Carreg. Addawsant i'r brodorion yn gyfnewid am y cerrig du wreiddyn blodeuyn oedd yn agor i gyfeiriad yr haul. Gwnaeth y Cymry a hwythau'n Dderwyddon ac yn addolwyr yr haul fargen. Felly y daeth Cennin Pedr i Gymru lle'u derbyniwyd, fel arwydd-lun cysegredig, a Glo Carreg i'r Ysbaen er toddi'r meteloedd, a gwnae hynny'n fwy hwylus na'r golosg neu'r *colis* fel y dywedem ni a ddefnyddid cyn hynny

Yr oedd y blodeuyn yn fwy cyffredin o lawer gynt nag heddiw canys dywed hen ysgrifennydd yn yr unfed ganrif ar bymtheg "ei fod yn tyfu bron ymhobman yn Lloegr," Car y blodeuyn dwbwl ardal hen adeiladau crefyddol neu dyddynnod. Yn sier nid oes i un blodeuyn enwau mwy rhyfedd na hudol ond "Croeso'r Gwanwyn" yw'r mwyaf barddonol a'r mwyaf priodol yn unrhyw iaith. Daw cyn mentro o'r wennol gan arwain y pasiant disglaer sy'n terfynu gyda Ffarwel Haf. Yng Ngogledd Ceredigion adnabyddir ef wrth yr enw od "Pegi Domis," paham y mae'n anodd dywedyd. Yn Ne'r Sir fe'i gelwir yn Flodyn Mis Mawrth, ym Mhenfro Blodyn Dewi a Lili Pengam, ac yn rhannau o Ogledd Cymru y Bibell Felen. Y mae yna hen rigwm gan y Saeson :—

"Daff a down dill
Has come to town
In a yellow petticoat
And a green gown."

Ni wyr neb ei ddechreu ond y mae'r hen bennill bach yn darawiadol. Enw arall yw Picellwyr y Brenin(King's Spearmen) ac y mae'r dail hir blaenfain yn awgrymu picelli a'r blodau talsyth y milwyr.

Blodeuyn y Grawys ydyw. Oni chawn Erwau Duw ar dân gan eu prydferthwch euraid ar Sul y Blodau ? Gelwir ef hefyd yn Lili'r Grawys, Rhosyn y Grawys ac enwau ereill. Yr oedd yn hen arferiad i daflu'r blodau at y ceiliogod ar Fawrth Ynyd

Y mae'r enwau Cennin y Gwinwydd a Chennin y Pasc yn gyffredin yn Sir Gaerfyrddin ond Cenhinen Pedr yw un o'r enwau hynaf am dano ac fel llawer o'r blodau melyn fe'i cyflwynir i'r Sant gwallt goleu. Wedi'r cyfan onid un o deulu'r

Genhinen ydyw ac o hyn y tarddodd y dyryswch a'r anghydweledíad parthed ein harwyddlun cenedlaethol y sydd mor danbaid ar Ddydd Gwyl Dewi. Y Genhinen yntau Cenhinen Pedr, er nad yw poblogrwydd y blodeuyn ond cymharol ddiweddar tra ceir tystiolaeth hanesyddol o blaid y Genhinen o'r flwyddyn 1537 o leiaf. Y mae'r llysieuyn cartrefol hwn yn gysegredig i'r Aifftiaid a'r Derwyddon—y lliwiau gwyn a gwyrdd yn arwyddo purdeb a thragwyddoldeb, a gwyddid fod i'r Genhinen briodoleddau meddyginiaethol.

Ba wers a fedrwn ni ddysgu oddiwrth y blodeuyn prydferth hwn—Cenhinen Pedr? Gwers gwerth ei chofio. Fel arwyddlun Cyngrair y Cenhedloedd y mae'n wyrth o fuddugoliaeth gobaith ar brofiad, o dda ar ddrwg, gyda phopeth yn ei erbyn, gwynt, y tywydd, hyd yn oed y ddaear ei hun. Y mae'n ennill mewn gornest galed, heb ond odid ei thebyg yn holl gylch Natur.

KATIE JONES,
Gellifaharen.

FFWL EBRILL.

YR wyf yn ol yn 'slawer dydd cyn 'slawer dydd sy'n awr, a diddorol ydyw byw am awr ym myd atgof. Gweld y bais a'r betgwn a'r clocs a chofio'r cawl llaeth a'r bwdran a'r maidd simil.

Onid yw'r hen fyd yn cyfnewid! Y mae hyd yn oed hen driciau a throion direidus a diniwed y dyddiau gynt yn marw a ninnau heb fod ar ein hennill bob tro. Ni wyr nemor un heddiw am hen arferion oes fy nhadcu. Gwelaf yr hen "Geffyl Pren." Mor benuchel ydyw. Yr oedd ei weryriad gynt yn ddigon i beri braw i'r euog. Gwelaf y dorf yn crynhoi dan gysgod y nos a llawer un dan orfod ei frochgau. Y mae cymaint os nad mwy o'i eisieu heddiw na chynt ac fe wnai ei weryriad les i foes gwlad a thref. Heddiw cyfraith ac ymadael, ddoe'r ceffyl pren a byw.

Cerddais drwy Gae'rodyn yn ddifeddwl ddigon. Y mae'r odyn wedi'i symud o gornel y cae ers tro ac o felinau'n gwlad o ran hynny, ond i mi yr wyf yn ol yng Nghae'rodyn. Clywaf firi'r bobl ieuainc. Gwelaf lewych y tan ar gant y nef o bell. Daw rhai o hen alawon Cymru ataf ar adain y gwynt. O nesu'n ddistaw at yr hen odyn nid oes yno ddim ond "*Shimli.*" Ie a neb heddiw yn gwybod am dani, a hithau wedi rhoddi ffordd i'r whist drive a'r ddawns.

Ni wyr y do sydd yn codi am "folant" ac y mae mis molantau yn ddiystyr. Hwyrach y cofiant am *Valentine's day* oherwydd y mae'r Saesneg yn ysgafnach i frest llawer coegyn ffroenuchel. Amser diddorol oedd amser y molantau, a hoffwn pe medrwn agor o'ch blaen ambell folant salw lle medrai merch bentyrru gwawd a dirmyg ar ben yr anffyddlon a rhyw fardd gwlad wedi'i fflangellu'n ddiarbed. Ni wnai ambell folant salw ddrwg yn y byd i'r anffyddlon eto a chofier medr gwawd a dirmyg beri i'r caletaf a'r llwfrgi wingo a chywilyddio.

Ni cheir dydd Calan fel cynt. Ni chofir ond odid am hen wragedd llwm yn ceinioca ar y dydd hwn mwy nag y gwyr yr oes heddiw am *wlana* ar y mynydd. Pwy nad yw wedi gwrando storiau calcho a gyrru i'r odyn. Y gwas wedi gofalu am ei geffylau'n hir a llawer phioled o geirch wedi'u lladrata o'r lloft fach yn ddiarwybod i'r meistr. Ofnadwy y gyrru er ceisio osgoi'r gât, ond y mae'r calcho drosodd a'r odynnau wedi diffodd. Gyda'n *binders*, ni welodd nemor un gryman ond fel *relic* o'r oesau gynt ond pwy nad

yw'n cofio fel y medrai ambell hen fedelwr "daflu'i gryman," chwedl yr hen bobol. Dewch yn nes. Y mae'n hoe hogi. Gwrandewch ar y fforman yn adrodd helynt medi Shir Henffordd neu hanes gwlychu'r gaseg fedi a bwyta poten penfedi. Yr wyf i yn hen (am dro) ac fel pob henwr ond odid yn dechreu crwydro.

Awgrymir fod yr oes yn dod yn fwy *refined*. Y mae rhywbeth yn feddal yn y geiriau Saesneg yma, ond i mi mwy croendeneu y mae neu ni adawai droion ysmala dydd Ffwl Ebrill i farw o'r tir. Y mae pobun yn fwy o ffwl nag y mae'n fodlon addef ond sicr bu pob un o honom yn ffwl ar y cyntaf o Ebrill. Pe medrem gadw'n ffolineb i'r dydd hwn yn unig buasem ar ein hennill gyda llaw.

Cofiaf droion syml a diniwed ddigon Y mae dyn yn hen o gofio. Nid oes gan blentyn ond ei heddiw bach ond y mae gan ddyn ei ddoe a'i yfory o ran hynny. Y mae'r plentyn yn byw pob dydd yn ei ddydd a chariad yw ei fyd. Awgrymai Wordsworth fod plentyn yn gwybod am ryw fyd gwyn y mae newydd adael ond ei fod yn ei anghofio bob yn dipyn. Nis gwn ond o edrych ar y wên nefolaidd sydd ar wyneb y baban bach, y mae'n hawdd credu hynny. Fel yr heneiddia, fe fyn y gorffennol ei le. Ys dywedai rhywun—dyry'r cof rosynnau inni ym mis Rhagfyr. Y mae'n fis Rhagfyr arnaf mewn llawer ystyr ond yr wyf yn fy ngardd rosynnau ac arogl ambell rosyn yn aros yn hir, ie, cof am lawer tro ysmala a direidus, troion Ffŵl Ebrill. Yn yr ardal yr oedd hen weithiwr, hen labrwr a britsh a legins rib am dano. Yr oedd ganddo "dafod tew" fel y dywedid gynt ac yr oedd yn ddifyrrwch ei wrando yn dweyd ei stori. Fel llawer un yr hen wr oedd ar y top bob tro. Medrai ladd gwair, dal gwahadden, agor cwter, plygu perth, cwarro a phopeth yn well na neb arall. Nid oedd baeddu arno yn ei dyb ei hun. Chware teg iddo. Gwn am glawdd clotsen a charreg sy'n aros hyd heddiw a bob tro y'i gwelaf yr wyf yn cofio am yr hen labrwr. Rhaid dywedyd ei fod yn eithaf "*dethe*," ond nid un iod yn well nag y tybiai. Agorwn i fy llygaid glâs gwirion o'i glywed yn mynd dros yr hanes ac yr oedd pob stori yn efengyl i mi. Clywaf ef wrthi'r funud yma a'r dafod ar droion yn fwy na llond ei ben; ond nid oedd hyn ond ychwanegu at ardderchowgrwydd y stori i mi. Llyncwn i bob stori. Hwyrach y gwyddai hyn ond medrai roi *polish* arnynt. Ymffrostiai byth a beunydd yn ei driciau. Ni wyddwn i druan gwirion nad yw twyllwr byth yn caru cael ei dwyllo. Y mwyaf pryfoclyd yw'r mwyaf croendeneu bob amser. Yr wyf wedi dysgu'r athroniaeth hon ers llawer dydd bellach ond credaf mai ar gost yr hen labrwr y cefais y wers gyntaf.

Ar galan Ebrill ryw ddeng mlynedd ar hugain yn ol yr oedd yr hen labrwr yn gweithio gyda ni. Agor tranch yn y cae gwair. Nid oedd gennyf innau job a phenderfynais ddifyrru fy hun. Rhedais ar garlam wyllt gan waeddu nerth fy mhen. Yr oedd golwg wyllt arnaf fel dyn wedi'i frawychu. Yr oedd yr hen labrwr hyd ei geseiliau yn y gwter. Lluniais rhyw fath ar stori iddo. Dyma'r henwr i fyny o'r gwter ac yr oedd golwg ar y Britsh erbyn hyn. Yr oedd ei ddwy glocsen enfawr yn llwyth cart asyn gyda'r llaid a'r slwdg am danynt. Ceisiai redeg. Gwelais wedi hyn eliffant yn dawnsio a doe yr hen labrwr yn fyw o flaen fy meddwl. Yr oedd hen getyn o bib glai yn ei ben ac edrychai fel *tusk* yr eliffant. Diolchwn i'r nefoedd fy mod yn gynt nag ef. Ac yn lle rhedeg i'r ty fel dylaswn yn ol fy stori, rhedais i ben iet y clos er mwyn diogelwch a gwelaf y funud yma yr hen labrwr yn ochain a pheswch, a'i wyneb hir a'i wep shag yn troi yn ol am y gwter. Gwyddwn erbyn hyn ei fod wedi cofio'r dydd a gwyddwn fwy. Gwyddwn mai gwell oedd cadw mhell am dro. Yn gynnar yn y prynhawn daeth fy nghyfle i ddod yn ffrindiau. Yr oedd y baco wedi cwpla a'r pentre filldir o'r gwter. Fy mhenyd innau am dwyllo'r hen wr ac ail ennill ei ffafr oedd rhedeg i'r pentref am ddybaco. Yr oedd yn werth hynny.

Daeth y cyfan yn fyw yn ol i mi ar ddydd Ffwl Ebrill. Gwyddid fy mod yn disgwyl y post a disgwyl

mwy na'r post, disgwyl erthyglau i'r "YMOFYNNYDD". Nid oedd yr hwyl oreu arnaf. Gwaith arall yn galw, minnau'n brysur ac yn disgwyl. Clywais swn troed rhywun yn dod dwmp dwmp i'm hystafell a churo'n ddistaw bach, yn ddistawach nag arfer o lawer.

"Daddy!" meddai. "Y mae lot lot o lythyron yma." Rhuthrais i'r drws gan feddwl fod fy mlinder am fisoedd drosodd. Nid oedd yno yr un. Edrychais yn wyllt o'm hamgylch. Clywais bwff o chwerthin. Chwarddai rhywun nerth ei phen gan waeddi *Ffwl Ebrill Daddy*! Ni ddywedais ddim. Beth fedrwn ddywedyd. Euthum yn fy ol dan chwerthin o gofio'r dyddiau gynt.

Y CYFARFOD CHWARTEROL.

CYNHALIWYD Cyfarfodydd y Pasc yn Alltyblaca ar y dyddiau Mawrth a Mercher, Ebrill 6 a 7. Nos Fercher dechreuwyd y cyfarfod gan y Parch. E. R. Dennis, Aberdar, a phregethwyd gan y Parchn. D. Conwil Evans Rhydygwin a T. O. Williams, M.A., Llanbedr. Bore Mercher cynhaliwyd Cynhadledd o dan lywyddiaeth y Parch. D. Conwil Evans, pryd y bu amryw o faterion yn cael eu hystyried. Yng nghyfarfod y prynhawn cyflawnwyd y rhan ddefosiynol gan y Parch. D. Evans, Capelygroes, a phregethwyd gan y Parchn. T. O. Williams ac E. R. Dennis. Yn yr hwyr cyflawnwyd y rhannau arweiniol gan Mr. Marles Thomas, myfyriwr, a phregethwyd gan y Parchn. E. R. Dennis ac E. O. Jenkins, Llwynrhydowen. Methodd y Parch. Dr. W. Griffiths, Aberystwyth a'r Parchn. T. Arthur Thomas, Llandysul a D. G. Rees, Trebanos bod yn bresennol oherwydd afiechyd. Hyderwn y bydd iddynt gael adferiad buan. Ag eithrio absenoldeb y gweinidogion hyn, bu pob peth arall yn fanteisiol i'r cyfarfodydd fod yn rai llwyddianus. Yr oedd yr hin yn ddymunol, a bu y cynulliadau yn lluosog oherwydd hynny. Cafodd y gwirionedd ei draethu gan bob un o'r gweinidogion mewn modd byw a grymus iawn, a chredwn i bob un ohonynt lwyddo i argraffu ei neges ar feddyliau y gwrandawyr. Mor amlwg oedd dylanwad y genadwri ym mhob cyfarfod fel y teimlem mai nid yn ofer yr oedd y cyrddau yn cael eu cynnal. Arwydd da ydoedd fod cynifer wedi dod yng nghyd, a llawer o'r cyfryw a chanddynt bellder mawr i ddod; dengys hynny eu bod mewn cariad a'r efengyl, ac yn barod i aberthu amser a llawer o bethau ereill er mwyn budd i'w bywyd ysbrydol. Heblaw y gweinidogion a enwyd yr oedd yn bresennol hefyd y Parch. R. C. Jones, Llanbedr. Da oedd gennym ei weled mor iraidd ei gorff a bywiog ei ysbryd. Hir y parhao felly. Gwnaeth eglwys Alltyblaca ei rhan yn ardderchog i groesawu y dieithriaid.

PWYLLGOR Y PASC.

CYNHALIWYD hwn yn Alltyblaca bore Mercher, Ebrill 7, o dan lywyddiaeth y Parch. D. Conwil Evans. Rhoddwyd y bore i'r pwyllgor. Yr oedd nifer lluosog o gynrychiolwyr yn bresennol a chredwn iddynt fwynhau'r ymdrafodaeth o'r gwahanol faterion a fu ger bron. Cafwyd adroddiad gan y Llywydd parthed gwneuthur ymddiriedolwyr ar Gwmmwrdu; cafwyd ar ddeall fod y gwaith bron a'i gwblhau.

Trysorfa'r Mufyrwyr.—Cafwyd ar ddeall fod amryw o'r Eglwysi eisioes wedi gwneud eu casgliadau tuag at hon ac fod y casgliad ar droed mewn ereill. Yr oedd yn amlwg fod yna

deimlad cryf yn yr eglwysi y dylesid rhoddi pob cefnogaeth i bobl ieuainc a'u hwyneb ar y weinidogaeth.

Ar ol 16 mlynedd o wasanaeth ffyddlon fel Trysorydd y Gymdeithas gofynnodd Mr. D. Martin Jones, Y.H. Gwion Castle, Llandysul am gael ei ryddhau o'r swydd. Derbyniwyd yr ymddiswyddiad gyda theimlad o flinder a phasiwyd pleidlais o ddiolchgarwch cynnes i Mr. Jones am y gwasanaeth da a roes yn ystod y cyfnod crybwylledig. Apwyntiwyd ei frawd Mr. Josiah R. Jones, Y.H., Garthowen i gymryd ei le.

Bu cryn siarad ynglyn a thynnu allan Faes Llafur ar gyfer arholiad yr Ysgol Sul am 1927. Yr oedd yr amrywiaeth barn yn gyfryw fel na wnawd dim yn derfynol a gadawyd y gwaith i Bwyllgor yr Ysgol Sul gyda hawl i wneuthur yn hollol fel y tybiai'r Pwyllgor yn oreu.

Y Llyfr Tonau ac Emynau Yr oedd yn amlwg fod yr Eglwysi yn fyw iawn i'r angen am dano ac mae eu hawydd mawr yw ei gael wedi ei gwblhau mor fuan ag y bo modd. Pasiwyd ein bod yn gofyn i Bwyllgor y Llyfr i gwrdd unwaith yr wythnos yn ddiball hyd nes fod y llyfr yn barod i'w argraffu. Gofynwyd i'r Llywydd gynrychioli'r Gymdeithas yng nghyfarfod blynyddol y G.U.F. a Thramor. Gadawyd trefnu lle cynhaliad y cyfarfodydd blynyddol i'r Ysgrifennydd.

E. O. Jenkins.

CYMANFA GANU SIR FORGANNWG.

A syndod mudanol y'm tarawyd pan glywais nad oedd Cymanfa i'w chynnal eleni, canys gwyddwn fod y trefniadau i gyd wedi eu cwblhau, a phobl dda y Methodistiaid yn Heol-y-felin wedi addo benthyg eu haddoldy hardd er cynnal y Gymanfa. Yr oedd meddwl fod y Gymanfa sydd wedi ei chynnal yn ddidor am ddeugain mlynedd yn cael ei hatal yn peri i mi ymchwilio er gweld beth oedd y caddug du a ddaeth i'r golwg. Daeth i'm clyw fod dymuniad wedi dyfod i law o'r Graig, Trebanos, fythefnos cyn dydd y Gymanfa yn gofyn am ei gohirio am nad oeddynt hwy wedi gwneuthur dim paratoad. Digwyddiad anarferol yw hyn mi a gredaf yn hanes eglwys y Graig. Y mae hyn wedi peri syndod mawr i mi am fy mod bob amser yn credu eu bod a'u holl enaid yngwaith y Gymanfa, a mwy na'r gred hon yw y ffaith mai Arweinydd y Graig oedd i arwain y Gymanfa, ac yr oeddwn i yn disgwyl am Gymanfa benigamp. Wel, meddwn wrthof fy hun, mae rhywbeth neilduol yn esbonio hyn, ac wedi holi ymhellach cefais eu bod wedi bod yn paratoi gogyfer a pherformio Oratorio, a gwaith y Gymanfa yn cael ei esgeuluso. Clywais fod cynrychiolaeth o Drebanos yn y pwyllgor a wnaeth y trefniadau, a threfnwyd cynnal y Gymanfa eleni ar Llun y Pasc yn bennaf er cyfarfod a dymuniadau Eglwys y Graig. Ar bwys hanes fel hwn credaf fod atal y Gymanfa eleni i gyd yn gorffwys ar ysgwyddau aelodau y Graig. Sicr yw y gallasent fod wedi sylweddoli yn gynt nad oeddynt yn barod, a phle buont cyhyd cyn rhybuddio y pwyllgor, a chaniatai fod dyled yr Eglwys yn gofyn am egnion neilduol oddiwrth gor y Graig. Eto, credaf na ddylasai y Gymanfa Ganu, sydd yn gwneuthur cymaint dros ganiadaeth y cysegr gael ei hamddifadu. Rhagor na hynyna, os gwir yw yr hyn a glywir nid oes llawer o obaith nawr am ei hadferyd, trueni o'r mwyaf tyddai hyn canys ni ellir disgwyl wedyn ond dirywiad yng nghaniadaeth y cysegr. Nid oes angen adgofio Undodiaid Deheudir Cymru fod y Gymdeithas o ba un mae'r Eglwysi yn aelodau yn prysur baratoi Llyfr

Tonau ac Emynau newydd at wasanaeth yr enwad. I ba ddiben fydd gorchwyl felly os collir y Gymanfa. Ofnaf fod ysbryd hunanoldeb wedi meddiannu rhywrai, a grym eu dylanwad hwy sydd wedi peri y dinistr eleni. Hyderaf y daw heulwen brawdgarwch, a bwysleisir gymaint o'n pulpudau i lewyrchu drwy'r caddug presennol a bydd y rhai hynny sydd eto a'u holl enaid a'u holl galon o blaid cân a moliant yn Nhy Dduw yn penderfynu fod yn rhaid cael Cymanfa er mwyn cael y gwir foliant yn y cysegr. Credaf hefyd mai y Gymanfa yw y mudiad goreu sydd gan yr enwad i roi ysbrydoliaeth i'r eglwysi gwan. Ar bwy adeg arall y gwelir cymaint o Undodiaid wedi casglu ynghyd ac yn uno yn dorf gariadus i foli Duw, a mentraf ddweyd am y canu a'r moli eu bod bron bob amser yn fendigedig a hynny heb na Doctor na Phroffeswr yn ein harwain, prawf mi gredaf fod pobun a'i holl enaid yn y gwaith. Onid yw gwleddoedd fel hyn yn werth eu cynnal, gwell fyddai mynd gam ymhellach a chau ein Haddoldai. Onid oes llawer o swn y geiniog yn y Gymanfa y mae yna rywbeth sydd fwy o bwys o lawer sef cymundeb a'r Tad Nefol ar sain cân. Colli'r Gymanfa? Na, y mae'n rhaid ei hadferyd.

Hen Edmygydd.

PRIODAS.

Yng NGELLIONEN, Sad., Ebrill 3ydd, o flaen y Cofrestrydd, Mr. Noah L. Davies, Pontardawe a'r Parch. D. G. Rees, gweinidog, priodwyd Mr. Johnny Bowen, Trebanos a Miss Gwen Bennett, Gellinedd, Pontardawe.

MARWGOFION.

Ionor 30, Rachel Jones, Penwalce, Pontsian, Llandysul, yn 89 mlwydd oed. Bu'r ymadawedig yn dihoeni am amser hir, a chafodd ei chystuddio i'w chartref am rai blynyddoedd. Yr oedd yn wraig ddistaw di-son-am-dani, ac iddi barch gan bawb a'i hadwaenai yn yr ardal y bu yn byw mor hir. Gadawodd fab a merch mewn galar am dani. Claddwyd y dydd Mercher dilynol i'w marwolaeth ym mynwent Pantydefaid, y gweinidog yn gwasanaethu, yn cael ei gynorthwyo gan Ficer a Chiwrad y Plwyf, ynghyd a'r Parch. E. O. Jenkins.

Chwefror 27, yn 41 mlwydd oed, Mrs. Rachel Thomas, Cilgwynbach, Llandysul. Bu yr ymadawedig yn athrawes yn Ysgol y Cyngor am flynyddoedd, yn fawr ei pharch gan bawb y deuai i gyffyrddiad a hwy yno. Bu yn eithriadol o ffyddlon yng Nghapel y Graig ar hyd y blynyddoedd, lle yr oedd yn athrawes weithgar yn yr Ysgol Sul. Bendithiwyd hi a thalent uwchlaw y cyffredin a gwnaeth ddefnydd da ohoni, a theimlir colled fawr ar ei hol yn enwedig yng nghylch yr Ysgol Sul. Gadawodd mewn hiraeth a galar mawr ar ei hol briod ac un ferch ieuanc, mam oedranus, brodyr a chwaer, ynghyd a pherthynasau agos ereill. Claddwyd yr hyn oedd farwol ohoni ym mynwent Pantydefaid y dydd Mercher dilynol. Gwasanaethwyd ar yr achlysur gan y Parch. T. Arthur Thomas, yn cael ei gynorthwyo gan y Parchn. David Evans, Cribyn; E. M. Davies, Ficer, Llandysul, ynghyd a'r Parch. E. O. Jenkins, Llwynrhydowen.

Mawrth 12, yn 38 mlwydd oed, wedi cystudd hir bu farw "Lizzie" annwyl briod Mr. D. T. Williams, Crouch Hill, Crouch End, Llundain, gynt o'r Alltfawr ger Llanbedr. Nid oedd wedi mwynhau iechyd cryf er's blynyddoedd ond ni freuddwydiodd odid neb fod y diwedd mor agos. Benyw dawel a siriol ydoedd ac o galon garedig ond bu claddu "Daff" yn ormod iddi. Clafychodd yn yr hydref ac ehedodd ymaith ar y dydd uchod. Gwasanaethwyd yn y ty yn Nghrouch Hill gan y Parchn. Griff. Rees, B.A., B.D., Holloway Road a Llewelyn Jones, Crouch End. Cychwynwyd am Gapel y Bryn am ddeg o'r gloch nos Lun ar fodur elorgerbyd a chyrhaeddwyd y gladdfa tua hanner awr wedi deg fore Mawrth a'r angladd yn anghyoedd. Pregethwyd yng Nghapelybryn gan gyfoed iddi y Parch. T. Oswald Williams, M.A., a gweddiwyd ar lan y bedd gan y Parch. Lewis Williams. Gadawodd briod, un ferch unarddeg oed, a mab bychan blwydd oed, un chwaer, heblaw perthynasau ereill mewn gofid a hiraeth calon o golli cymar bywyd, chwaer dirion ac annwyl ond yn anad dim mam gariadus a thyner. Gofaled y nef am yr amddifaid.

Mawrth 18, yn 38 mlwydd oed, Mrs. Mary Jones, priod Mr. David Jones, Maesyronen, Prengwyn, Llandysul. Ni fu yr ymadawedig yn wael ond am fyr amser, a chafodd ei chymeryd o ganol ei gwaith a'i defnyddioldeb yn annisgwyliadwy. Benyw dawel a siriol ydoedd, yn ofalus o'i chartref a'i theulu lluosog, a gellir dweyd am dani iddi ymdrechu ymdrech deg. Gadawodd mewn galar mawr o'i cholli, briod ac wyth o blant ieuanc, heblaw mam, brodyr a chwiorydd. Nodded y nef fyddo drostynt. Claddwyd ei rhan farwol ym mynwent Pantydefaid y dydd Llun dilynol pryd y gwasanaethwyd gan y Parch. T. Arthur Thomas yn cael ei gynorthwyo gan y Parch. R. H. Williams, Carmel a'r Parch. E. O. Jenkins, Llwynrhydowen.

Mawrth 26, yn 81 mlwydd oed, Mrs. Sarah Thomas, gweddw y diweddar Mr. William Thomas, Fronwen, Llandysul. Yr oedd yr ymadawedig yn enedigol o Lanllwni, ond treuliodd y rhan fwyaf o'i hoes yn ardal Llandysul. Gwraig dawel a diwyd y bu ar hyd ei hoes, a gweithiodd yn galed ar hyd ei hoes, a medodd o ffrwyth ei llafur. Gadawodd ddau fab a merch-yng-nghyfraith mewn hiraeth ar ei hol, y rhai fu'n dyner iawn ohoni yn ei henaint. Hebryngwyd ei gweddillion i fynwent Pantydefaid y dydd Llun dilynol. Gwasanaethwyd gan y Parch. T. Arthur Thomas, yn cael ei gynorthwyo gan y Parchn. E. M. Davies, Ficer ac E. O. Jenkins.

Sadwrn, Mawrth 27, yn 72 oed, John Bowen, Tanyrallt, Trebanos, gynt o Gellionen Uchaf. Blin iawn oedd gennym glywed am farwolaeth dra sydyn ein hannwyl frawd. Hwylid y llong yn ddibryder tan awyr las a môr bonheddig; ond megis ar darawiad llygad wele don ar ol ton yn lluchio dinystr draws y bwrdd, a syrthiodd y llongwr yn ysglyfaeth i wanc y ddrycin arw. Ni a hyderwn y bydd i'w chwaer a adawyd yn unig dderbyn nerth oddiuchod i ddal oreu y gall o dan yr ergyd llethol. Cymerodd yr angladd le y dydd Mercher cyfisol, ac awd a'r arch i gladdfa Gellionen. Gwasanaethodd y Parch. D. G. Rees y gweinidog, a chynorthwywyd gan y Parchn. D. Johns, Gosen, Trebanos, ac Albert Jones, B.A., Carmel, Clydach.

Ebrill 12, yn 77 mlwydd oed, Mr. Thomas Jones, Tailor's Arms, Llandysul. Bu'r ymadawedig yn gweithio am flynyddoedd yn Ffosesgob. Bu yn weithiwr diwyd, gofalus a darbodus, a daeth i dy ei fab ychydig amser cyn noswylio. Y dydd lau dilynol gosodwyd ei weddillion i orwedd ym mynwent Pantydefaid yn ol ei ddymuniad. Gwasanaethwyd yn absenoldeb y gweinidog gan y Parch. E. O. Jenkins a'r Parch. E. M. Davies, Y Ficer.

NODION YR EGLWYSI.

CAPELYGROES.—Dug Dosbarth y " Women's League " eu tymor i ben trwy wledd o dê Nos Fercher, Mawrth 24ain ; ac unwyd a hwy gan aelodau'r Ysgol Nos. Daeth nifer luosog ynghyd, a chaed cyfarfod difyr ac adeiladol. Cyflwynwyd ffon i'r gweinidog ar ran aelodau'r " Ysgol Nos." Bu'r mynychiad o'r ddau sefydliad yn hynod o dda trwy'r gaeaf ac y mae'r ddau, yn ol yr arwyddion presennol wedi dod yn sefydliadau parhaol.

CRIBYN.—Dydd Gwener, y 9fed o Ebrill, rhoddwyd gwledd o dê i'r Ysgol Sul a'r gynulleidfa gan y teuluoedd a ganlyn : Mr. a Mrs. Jenkins, Maesnewydd ; Mr. a Mrs. Howells,Maesgwyn ; Mr. a Mrs. Evans, Maesllwyd ; Miss Lewis, Panteg ; Mr. a Mrs. Jenkins, Glyn ; Mr. a Mrs. Jones, Cwmmynach. Daeth nifer luosog iawn ynghyd i fwynhau o'r danteithion. Yn yr hwyr cafwyd cyfarfod cystadleuol llwyddianus. Cadeiriwyd gan Mr. Jenkins, Maesnewydd, ac arweiniwyd gan Mr. Evan Davies, Ffrwd Arms ; beirniadwyd gan y Parch. T. O. Williams, M.A., a Mr. David Davies, Arfon, Llanbedr. Cyfeiliwyd gan Miss Evans, Graigwen.

CAPELYBRYN—Ar derfyn tymor Dosbarth y Boneddigesau cynhaliodd aelodau y Dosbarth ynghyd ag aelodau yr Ysgol Sul *Social* nos Iau, Mawrth 25. Rhoddwyd yr arlwy gan y boneddigesau, ac yr oedd yn rhagorol. Cafwyd amryw o ganeuon ar y Gramaphone gan Mr. Edgar Evans, Cwrt Farm. Darllenodd Mr. Tom Jenkins, Glynmeherin benillion yn darlunio y nodweddion a berthyn i amryw o aelodau ysgol Sul y lle. Cafwyd mwynhad mawr wrth glywed amball nodwedd yn cael ei disgrifio, a deffrodd ei ddarluniad o nodweddion ereill syniad ynom o werthfawrogiad o ffyddlondeb a gwasanaeth amryw gyda'r Ysgol Sul. Cynhygiwyd pleidlais o ddiolchgarwch i'r boneddigesau am eu caredigrwydd gan Mr. D. Cledlyn Davies, ac eiliwyd gan Mr. Thomas Davies, Y Felin.

Y GRAIG A GELLIONEN.—Nos Iau, Mawrth 25, yn Neuadd Gyhoeddus, Pontardawe, a than arweiniad y brawd Mr. H. H. Morgan, Trebanos, rhoddodd Cor y Graig a Gellionen berfformiad o'r " Mesiah," gan G. F. Handel. Bu'r Cor fisoedd lawer yn ymbaratoi a llwyddodd i fyn'd yn hynod lân a di-anaf drwy'r cytganau maith a meistrolgar a gynhwysir yn y gwaith. Ffodus fuwyd i gael o hyd i bedwar piler ardderchog i gymryd yr unawdau a'r adroddganau —sef : Soprano, Miss Louisa Davies, Rhydaman ; Contralto, Madam E. Cooper Jones, Gwauncaegurwen ; Tenor, Mr. Harry Lewis, Nelson ; Bass, Mr. W. T. Rees, Abertawe. Cyfeilydd, Mr. Isaac E. Hopkin, Brynderw. A thu cefn i'r llen, yn y *Rehearsals* ac yn absen y brawd a enwyd, cynorthwyodd Mr. W. J. Bowen, Rhianfa, gyda'r cyfeilio. Hefyd, y gerddorfa linynnol, dan ofal Mr. Marles Williams, Glandolau. Yr Ysgrifennydd a'r Trysorydd oedd Mr. J. O. Morgan a Mr. J. W. Bowen. Cadeirydd y Pwyllgor, Mr. John Hopkin. Diolchir yn wresog i bawb am bob help ym mhob modd, a phryd, a lle.

ALLTYBLACA—Cafodd yr eglwys hon ei Gwyl De Flynyddol Mawrth 26. Rhoddwyd y wledd eleni gan Mr. a Mrs. Williams, Bush House, Llanybyther. Yr oedd y diweddar David Williams, tad Mr. Williams yn addoli yn Alltyblaca, ac yr oedd mam Mrs. Williams, sef priod Mr. John Evans, Bush House, Llanybyther yn aelod o eglwys Alltyblaca. Oblegid y cysylltiadau hyn y mae gan Mr. a Mrs. Williams deimladau cynnes tuag at yr achos yn Alltyblaca. Heblaw hynny y mae eu cydymdeimlad yn gryf gyda phob achos da. Er eu bod yn aelodau yn eglwys y Bedyddwyr

yn Aberduar, ac yn gefnogwyr hael i'r achos yno, y maent mor frwdfrydig o feddwl ac ysbryd fel y mae eu haelioni yn ymestyn ym mhell y tuhwnt i derfynau eu heglwys a'u henwad. Yr oedd y byrddau wedi eu hulio a phob math ar ddanteithion a bu nifer anarferol o luosog yn cyfranogi o'r pethau da. Rhannodd Mr. Clifford Williams, unig blentyn y rhoddwyr, aurafalau i'r plant. Yn yr hwyr cynhaliwyd cyngherdd yn y Festri. Cyn cychwyn gyda'r rhaglen rhanwyd llyfrau yn wobrau am fynychiad cyson o'r Ysgol Sul drwy y flwyddyn ddiweddaf. Rhoddodd y Cor amryw o ddatganiadau o dan arweiniad Mr. Watkin Davies, Blaencruser. Yr oedd y canu yn swynol a'r adroddiadau yn dda, a chafwyd cyfarfod dymunol iawn. Pwrcasiwyd perdoneg a chanwyd hi am y tro cyntaf y noson hon gan Miss Thomas, Elveta, Llanybyther a Miss Price, Alltyblaca Farm. Terfynwyd drwy ganu yr Anthem Gymraeg Genedlaethol; Mr. Howell Jones, Inglis Cottage yn cymeryd yr unawd.

LLWYNRHYDOWEN.—Cafwyd gwledd ardderchog o De yn y lle hwn nawn dydd Gwener, Chwefror 26. Hon yw gwledd flynyddol yr Ysgol Sul ac y mae'n llawenydd i feddwl fod yna ryw bobl garedig yn barod o flwyddyn i flwyddyn i fynd i'r draul o ddarparu gwledd. Rhoddwyd y wledd hon gan Mr. a Mrs. Davies, Tynfron, Llanwenog a thystiai pawb mae gwledd odidog ydoedd. Pan gofiwn—fel y soniai rhai o'r plant yn eu pennillion diolch—mae mab Criborfawr yw Mr. Davies, ac mae merch Tycam, Llanwenog yw Mrs. Davies nid yw'n syndod yn y byd. Daeth tyrfa fawr ynghyd a chafwyd amser llawen iawn. Yn yr hwyr cynhaliwyd cyngherdd yr Ysgol Sul o dan lywyddiaeth Mr. Davies, Tynfron. Cafwyd adrodd, canu, cystadlu, etc. am dros dair awr. Clywsom amryw yn dywedyd mae dyma'r cyngherdd goreu hyd yn hyn. Beirniadwyd yr oll o'r cystadleuaethau mewn dull hapus gan Mr. D. Davies, Sychdy. Cyn gorffen y Cyfarfod cyflwynodd Mr. Tom Jones, Ffynnonowen, arolygwr a Mr. Evan Jones, Alltyrodyn Lodge, ysgrifennydd yr Ysgol Sul 23 o lyfrau a tua 50 o wobrwyon ereill i'r plant am eu ffyddlondeb yn cadw'r ysgol. Diolchwyd am y Te ar ran y gynulleidfa a'r Ysgol Sul gan Mr. Ben James, C.M., Pontshaen a Mr. Tom Jones, Ffynnonowen. Teimlwn dan rwymau i Mr. Tom Davies, Dewi Villa a Miss Anne Davies, Criborfawr am eu llafur gyda'r canu.

BRONDEIFI.—Ar brynhawn Sul, Ebrill y 18, cafwyd adeg ddiddorol yn hanes Eglwys Brondeifi. Yr oedd y "Codwr Canu," Mr. Hefin Williams enw adnabyddus i gantorion ar hyd a lled ein heglwysi, wedi gwasanaethu'r eglwys am ryw hanner can mlynedd. Bu ereill yma ac yn Nhynrhewl—Daniel Jones (Daniel y gwehydd) yn agor drws i ganu'r eglwys ieuanc, a'i fab, Evan Price Jones; Hathren Davies ym more'i oes, a Deio'r Hwper yn taro ambell dôn, a hwyrach fod a fynno canu a llwyddiant Brondeifi ar hyd y blynyddoedd, ond y maent wedi cefnu ers tro bellach pob un wedi gwneuthur diwrnod da o waith ac y mae "Hefin" fel y'i hadwaenir yn aros wedi hanner canrif, fel arweinydd y gan, fel arweinydd corau undebol y dref, fel cyfansoddwr tonau, fel arweinydd y Gymanfa ac fel gwr defnyddiol ymhob cylch. Cyflwynwyd iddo *cheque* ar ran yr eglwys gan Miss Nancy Williams, Brynllewelyn a siaradwyd gan y Gweinidog, Mri. David Davies a Timothy Evans. Datganodd yntau'i bleser o dderbyn y rhodd ond awgrymodd mai pleser goreu gwaith oedd ei gyflawni.

Yng nghyfarfod olaf y Women's League am y tymor, cyflwynwyd gan y Llywydd Mrs. Oswald Williams "*Butter Dish in fumed Oak, Jacobean Style*" i Miss May Jones, Brynmeddyg am ei charedigrwydd yn addysgu'r dosbarth yn ystod y tymor. Cafwyd gwledd o de i ddathlu pen tymor a threuliwyd awr ddifyr.

Ebrill 14, nawn Mercher, cafodd Eglwys Brondeifi ei gwyl de flynyddol gan foneddigesau o'r wlad neu dros yr afon o Sir Gaer. Nid oedd neb ond odid yn sier o'r boneddigesau

hael cyn y diwrnod hwnnw ond nid oedd dau feddwl am y tê. Ni chafwyd gwell gwledd erioed. Gan fod y boneddigesau wedi cadw'r cyfan yn *surprise*, nid yw ond teg diolch iddynt am eu haelioni a'u darpariaeth ardderchog ac yr oedd pawb wedi troi allan yn yr ysbryd goreu. Yn yr hwyr gan lywyddiaeth Yr Henadur David Davies ac arweiniad y Gweinidog cafwyd cwrdd ardderchog adloniadol a chystadleuol. Mr. B. T. Lewis, Oranmore yn beirniadu'r canu a'r adrodd a chafodd fwy o waith nag a feddyliodd. Chwareuwyd drama fer "Gogerddan" gan bobl ieuainc yr eglwys ac yr oedd pawb wedi'u bodloni yn y wledd, yng ngharedigrwydd y boneddigesau, yn y cystadlu, yn yr adrodd a'r canu. Gwnaeth pawb ei ran yn ardderchog.

(*Mewn llaw ar gyfer y rhifyn nesaf—Nodion o Drecynon, Cwm, a Llanbedr.*)

JUBILEE OF

"The Christian Life"

(The Popular Unitarian Weekly)

Editor since 1902 - - Rev. D. DELTA EVANS.

On May 22nd, THE CHRISTIAN LIFE will celebrate the Fiftieth Anniversary of its foundation by issuing a Special Number. It is anticipated that large demands for extra supplies of copies of that issue will be made by Congregations and Societies at home and abroad. The Publishers, therefore, venture to suggest to advertisers that the Special Number should prove an effective medium whereby to reach a large and important section of the community.

The Manager of THE CHRISTIAN LIFE will be pleased to quote specially low rates for space in the Jubilee Number.

Orders for Advertisements should reach the Publishing Office by Tuesday, May 18th, and for extra copies not later than May 20th. Cheques, etc., to be made payable to the

MANAGER, "THE CHRISTIAN LIFE,"
5, Fetter Lane, London, E.C. 4.

J. D. Lewis, Argraffydd, Gwasg Gomer, Llandysul.

JUST PUBLISHED.

Crown 8vo. Cloth 2/- net, Stiff Covers, 1/6 net.

THE AUTHOR OF

NEARER, MY GOD, TO THEE

(SARAH FLOWER ADAMS)

By H. W. STEPHENSON, M.A.

The illustrations include a reproduction in facsimile of the original M.S. of the hymn, "Nearer, my God, to Thee."

This Hymn, which first appeared in the Hymn Book of the South Place Unitarian Chapel, Finsbury, E.C., is more widely known than any other by a Unitarian writer. It is the expression of a faith that had endured many doubts and, at one time, seemed as though it would pass utterly away. This Memoir brings together all that is known of the life story of Mrs. Adams. Ministers and Teachers in Sunday Schools will do well to add it to the books already on their shelves; they will find it not only readable but useful as well.

Lindsey Press, 5 Essex Street, Strand, W.C. 2

Funeral Wreaths, Crosses, Harps,

And other designs, at short notice.

WEDDING BOUQUETS; etc., Rose Trees, Tomato Plants, Begonias, Geraniums, Lobelias, Palms, Ferns, etc.

HARRY COYSH,

(Successor to the late JOSEPH COYSH, Nurseryman. Established 1875)

Importer of Dutch Bulbs, Seedsman and Florist,

CARMARTHEN.

Telegrams—COYSH, Carmarthen.

E. LLOYD JONES

Bradford House, Llandyssul.

For Suits and Costumes to order from 50s.

—Mourning at Shortest Notice.—

. . . Satisfaction Guaranteed. . . .



A Complete Banking Service

The Midland Bank offers exceptional facilities for the transaction of banking business of every description through 1850 branches covering all important agricultural, commercial, industrial and residential districts in England and Wales.

Deposit accounts may be opened in amounts of £1 and upwards, and interest is allowed at current rates.

The Branch at 9 Lincoln Street, Llandyssul, is open every week-day, from 10 a.m. to 12 noon on Saturday and from 10 a.m. to 3 p.m. on other days.

MIDLAND BANK

LIMITED

HEAD OFFICE : 5 THREADNEEDLE ST., LONDON, E.C.2

Affiliations : Belfast Banking Co. Ltd., Northern Ireland; The Clydesdale Bank Ltd., and North of Scotland Bank Ltd., Scotland; Midland Bank Executor and Trustee Co. Ltd.